# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 15 Hydref 2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru 2024/25 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio / swyddog arweiniol yn cyflwyno'r adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gary Pritchard | Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)** | **Rôl** |
| Helen Kilgannon<br><br>Susan Owen Jones | Rheolwr Rhanbarthol GCAR-CGC<br><br>Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n ofynnol i Wasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru adrodd yn flynyddol i'r pwyllgor hwn, ar ffurf Adroddiad Blynyddol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

☒ Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion:

Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru 2024/25 a chyflwyno sylwadau arno.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

4.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau i gynllunio rhag argyfwng ac ymateb o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

4.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau drwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCAR-CGC).

4.3 Mae'n ofynnol i Wasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru adrodd yn flynyddol i'r pwyllgor hwn, ar ffurf Adroddiad Blynyddol.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgiwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Ymatebion allweddol yn ystod y cyfnod hwn, gan ganolbwyntio ar gydweithio â phartneriaid amlasiantaeth
2. Mesurau cyfredol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol
3. Blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

6.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau i gynllunio rhag argyfwng ac ymateb o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

6.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau drwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCAR-CGC), a Chyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod lletyol ar gyfer y gwasanaeth.

6.3 O fewn y Cyngor, mae cyfrifoldebau am gynllunio rhag argyfyngau ac ymateb iddynt yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaethau ac mae cynrychiolwyr gwasanaeth dynodedig yn cael eu nodi o fewn strwythur y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng.

6.4 Mae'r prif feysydd y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

6.4.1 Rheoli Digwyddiadau yn Effeithiol gan GCAR-CGC: Cynnal y gwasanaeth 24/7 gan Swyddog ar Ddyletswydd, gan ymdrin â bron i 200 o negeseuon i fod yn wyliadwrus o lifogydd, 21 rhybudd llifogydd a 352 o rybuddion tywydd gan y Swyddfa Dywydd ar hyd a lled y rhanbarth.

6.4.2 Cefnogi ymatebion amlasiantaeth i ddigwyddiadau sylweddol, gan gynnwys Storm Darragh, Storm Eowyn, y digwyddiad Synthite COMAH, a digwyddiadau eira/rhew difrifol, a chynrychioli'r awdurdodau lleol yn yr ystafell arian a sefydlwyd ym Mhencadlys yr Heddlu.

6.4.3 Cynhaliwyd Diwrnod Galluogrwydd y Sector Gwirfoddol gyda'r Groes Goch Brydeinig, REACT, 4x4 Cymru, ac eraill, gan wella'r rhwydweithio rhwng ymatebwyr a gwirfoddolwyr.

6.4.4 Roedd Storm Darragh yn seiclon alltrofannol a ffurfiodd ar 5 Rhagfyr 2024 ac a ddiflannodd ar 9 Rhagfyr 2024, a gwelwyd hyrddiau o dros 90mya. Fe wnaeth y storm effeithio ar yr Ynys ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr 2024 a dydd Sul, 8 Rhagfyr 2024. Cymerodd y Cyngor y rhagofalon a ganlyn ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr 2024:

- Cau pob canolfan hamdden.
- Cau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig Penhesgyn a Gwalchmai.
- Cau pob llyfrgell.
- Cau Oriel Môn a'r caffi.
- Cau pob toiled cyhoeddus.
- Cau Parc Gwledig y Morglawdd Caergybi a Gwarchodfa Natur Nant y Pandy, Llangefni.
- Cau Pier Biwmares a Phier San Sior, Porthaethwy.
- Cau llifddorau Biwmares, Bae Trearddur a Phorth Llechog.
- Gan fod y storm wedi digwydd dros y penwythnos, roedd prif swyddfeydd y Cyngor ac ysgolion eisoes ar gau.

Cafodd y storm effaith sylweddol: gan gau ffyrdd, cau Pont Britannia, cau porthladd Caergybi, torri'r cyflenwad trydan a difrodi strwythurau ac eiddo.

Yn ystod y cyfnod hwn, cydweithiodd y cyngor gyda phartneriaid, ymatebodd i broblemau ac effeithiau, a sicrhaodd fod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r gymuned a phreswylwyr lleol.

Bu nifer sylweddol o gartrefi ar hyd a lled yr ynys heb drydan am gyfnod hir. Yr ardaloedd gafodd eu taro waethaf oedd Llangoed (Heulfre), Llangefni (Carelink) ac Amlwch (Maes William Williams). Mewn ymateb, gweithiodd y cyngor yn agos â phartneriaid allweddol er mwyn blaenoriaethu lles y preswylwyr oedd wedi eu heffeithio, cydlynu'r gwaith o ddarparu adnoddau hanfodol (e.e. generaduron) lle'r oedd eu hangen, a sicrhau fod cymorth yn cael ei ddarparu lle'r oedd ei angen fwyaf.

Mae’r ffeithlun isod yn crynhoi gweithgareddau rhannu gwybodaeth y cyngor rhwng 4 a 9 Rhagfyr 2024.




Cynhaliwyd adolygiad ac ymarfer gwersi a ddysgwyd er mwyn casglu barn ynglŷn â’r hyn a wnaethpwyd yn dda a’r hyn y gellid ei wella pe byddai digwyddiadau tebyg yn codi eto yn y dyfodol.

6.4.5 Oherwydd bod difrod sylweddol wedi’i wneud i Borthladd Caergybi yn ystod Storm Darragh, caeodd y porthladd yn gyfan gwbl i draffig llongau rhwng 7 Rhagfyr 2024 a 15 Ionawr 2025.

Roedd y Cyngor yn rhan o ymateb amlasiantaeth brys a bu’n cydweithio trwy strwythurau Grwpiau Cydlynu Strategol a Thactegol. Oherwydd hyn, roedd yn bosib cyfathrebu’n effeithiol ac amserol, rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau. Nid y Cyngor oedd y corff oedd yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â Phorthladd Caergybi, ond roedd yn rhan o’r trefniadau ymateb er mwyn rheoli’r effeithiau (h.y. lorïau’n methu â theithio ar draws Fôr Iwerddon). Bu’r Cyngor yn ymgysylltu a chydweithio gyda’r Awdurdod Porthladd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill trwy gydol y cyfnod cau er mwyn rheoli’r effeithiau a sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda phreswylwyr.

Er mwyn deall effaith y cau ar Ynys Môn a busnesau Cymru, lansiodd y Cyngor arolwg ar-lein ar 8 Ionawr. Cyflwynodd y Cyngor dystiolaeth i’r ymchwiliad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ynglŷn â Difrodi a Chau Porthladd Caergybi yn dilyn Storm Darragh.

6.4.6 Mae'r Cyngor wedi llofnodi'r Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus sydd yn hyrwyddo tosturi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr yn bresennol yn y digwyddiad lansio ar 18 Mawrth 2025.

6.4.7 Ffurfiwyd Grŵp Tasg a Gorffen ym mis Mai 2024 i adolygu trefniadau wrth gefn ar gyfer croesi'r Fenai. Mae'r grŵp yn cynnwys ymatebwyr categori 1 a 2 ac mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn adolygu'r fframwaith a chadarnhau rolau a disgwyliadau. Cynhaliwyd ymarfer ar y ddogfen ym mis Tachwedd 2024 a Mawrth 2025. Mae'r gwaith wedi cryfhau cydlyniant amlasiantaethol, lleihau oedi posib wrth ymateb, a gwella'r parodrwydd ar gyfer argyfwng. Gwnaethpwyd rhagor o newidiadau i'r ddogfen fframwaith a bydd yn cael ei hadolygu gan grŵp cydlynu'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n datblygu cynllun stacio lorïau.

Mae'r angen i gau Pont y Bont ar frys unwaith eto wedi amlygu'r diffyg gwytnwch o ran y gallu i groesi'r Fenai a'r angen am drefniadau argyfwng gwydn, addas i'r diben petai sefyllfa'n codi lle mae angen cau'r ddwy bont.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Ni nodwyd unrhyw effeithiau - bydd yr holl grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu trin yn deg, heb unrhyw wahaniaethu.

7.2. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Mae nifer o ddigwyddiadau wedi amlygu'r angen am ddull cydgysylltiedig er mwyn adnabod pobl agored i newid mewn argyfyngau. Mae GCAR-CGC wedi sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn datblygu'r gwaith hwn a sicrhau y gallwn goladu gwybodaeth gyda phartneriaid, gan nodi unigolion a allai fod angen cymorth ychwanegol mewn argyfwng er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anfantais.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Ni nodwyd unrhyw effaith bosib.

7.4. Effaith bosib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Ni nodwyd unrhyw effaith posib.

## 8. Goblygiadau Ariannol

Cyfraniad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn tuag at y gwasanaeth yw £58,752, sef gostyngiad pellach o 5% o gymharu â chostau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar gyfrannu 10.472% tuag at gyllideb flynyddol y gwasanaeth. Ers ei sefydlu, mae'r Gwasanaeth wedi gostwng cyfraniadau'r 6 awdurdod lleol gan dros £350k.

| **Awdurdod Lleol** | **% Cyfraniad Blynyddol** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 10.472% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 16.940% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 14.865% |
| Cyngor Sir y Fflint | 19.348% |
| Cyngor Gwynedd | 17.979% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 20.396% |
| Cyfanswm | 100% |

## 9. Atodiadau

Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru 2024/25

## 10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir

Helen Kilgannon – Rheolwr Rhanbarthol GCAR-CGC



# Adroddiad Blynyddol 2024/25

Dyma adroddiad blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer 2024-2025.  Mae'n ymdrin â'r gwaith a gyflawnodd y Gwasanaeth yn y chwech o awdurdodau lleol yn y rhanbarth, yn ogystal â'r gweithgareddau amlasiantaethol i gefnogi Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd.

## Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru

ymholiadau@gcar-cgc.co.uk
01352 702124



## Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (y Gwasanaeth)

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydweithio mewn partneriaeth ers sefydlu Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2014. Mae'r Gwasanaeth yn ymgymryd â swyddogaethau'r Cynghorau o ran argyfyngau sifil posibl ac mae'n atebol i Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys uwch-swyddogion o'r Cynghorau hynny. Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl, 2004
- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, 2015
- Rheoliadau Diogelwch Piblinellau, 1996
- Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd), 2019.

**Mae'r Gwasanaeth yn gweithio i:**

- Leihau dyblygu gwaith ac ailadrodd tasgau
- Hybu cysondeb yng ngwaith y gwahanol dimau a meithrin eu cydnerthedd
- Gwella'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael drwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredin
- Hybu cysondeb yn ymatebion awdurdodau lleol
- Hwyluso sianeli cyfathrebu rhwng Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd ac Awdurdodau Lleol.



## Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol

Fel Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol, ac ar ran chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, rwy’n falch o gyflwyno’r Adroddiad Blynyddol. Mae’r adroddiad yn nodi gwaith ar y cyd ac ymrwymiad parhaus ein Cynghorau i sicrhau diogelwch, gwytnwch a pharodrwydd ein cymunedau wrth wynebu ystod eang o argyfyngau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm Cynllunio at Argyfwng wedi parhau i weithio’n ddiwyd i wella ein galluoedd ymateb rhanbarthol. O gydlynu ymarferion amlasiantaeth ac adolygu asesiadau risg critigol, i gefnogi cymunedau drwy ddigwyddiadau tywydd eithafol a digwyddiadau eraill, mae eu gwaith wedi parhau i fod yn rhagweithiol ac ymatebol.

Mae’r heriau rydym yn eu hwynebu - boed yn amgylcheddol, technolegol neu gymdeithasol - yn gofyn am gynllunio cadarn, a chydweithio effeithiol hefyd. Mae ein model gwasanaeth a rennir yn dystiolaeth o gryfder gwaith partneriaeth ar draws Gogledd Cymru. Trwy arbenigedd ac adnoddau a rennir, a strategaeth unigol, rydym yn parhau i ddatblygu rhanbarth sy’n fwy gwydn.

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu cyflawniadau allweddol, datblygiadau rheoli risg, hyfforddiant ac ymarferion, ac atgyfnerthu cysylltiadau gyda’r gwasanaethau brys, y GIG, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid eraill. Mae hefyd yn arddangos sut yr ydym yn ymgorffori gwelliant parhaus ym mhopeth a wnawn, trwy sicrhau bod gwersi heddiw yn hysbysu cynllunio ar gyfer yfory.

Rydym yn parhau i ymrwymo i gefnogi ein tîm Cynllunio at Argyfwng a phartneriaid, a diogelu lles pawb sy’n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru.

Diolch i’r holl staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid sy’n cyfrannu at y gwaith allweddol hwn.



## Rheoli Digwyddiadau

Mae'r Gwasanaeth yn darparu Swyddog ar Ddyletswydd 24/7 drwy gydol y flwyddyn i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymateb i argyfwng.

**Ym mlwyddyn ariannol 2024-25, rhoes y Gwasanaeth gymorth â:**

**Derbyn ac asesu rhybuddion a hysbysiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru:**

- 199 o Hysbysiadau o Lifogydd
- 21 o Rybuddion Llifogydd

**Derbyn, ac asesu Rhybuddion Tywydd gan y Swyddfa Dywydd:**

- Gwynedd = 69 (64 melyn / 4 oren / 1 coch)
- Conwy = 66 (61 melyn / 4 oren / 1 coch)
- Ynys Môn = 41 (38 melyn / 2 oren / 1 coch)
- Sir Ddinbych = 60 (56 melyn / 4 oren)
- Sir y Fflint = 58 (54 melyn / 4 oren)
- Wrecsam = 58 (55 melyn / 3 oren)

**Derbyn ac ymateb i adroddiadau o ddigwyddiad a oedd yn cynnwys:**

- Digwyddiad COMAH Synthite Ebrill 2024
- Rhybudd Glaw Oren Mai 2024
- Storm Darragh Rhagfyr 2024
- Rhybudd Oren Eira a Rhew Ionawr 2025
- Storm Eowyn Ionawr 2025
- Digwyddiad Dŵr Bryn Cowlyd Ionawr 2025



## Gweithio Gyda'n Gilydd

### Diwrnod Galluoedd Grŵp Gwirfoddol Cymorth Dyngarol 3 Medi 2024

Mae Swyddog Cynllunio at Argyfwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Swyddog Prosiect Cynllunio at Argyfwng y Dwyrain gydag arweiniad y Rheolwr Rhanbarthol wedi trefnu Digwyddiad Galluoedd y Sector Gwirfoddol ar ran Grŵp Gwirfoddol Cymorth Dyngarol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen o 4 aelod allweddol Grŵp Gwirfoddol Cymorth Dyngarol o 4x4 Wales, Y Groes Goch Brydeinig, REACT a Heddlu Gogledd Cymru. Cynhaliwyd tri chyfarfod Tasg a Gorffen cyn y digwyddiad ac ymweliad safle.

Roedd 10 cyflwynydd allweddol ar y diwrnod ynghyd ag arddangos cerbydau ac offer y tu allan i'r lleoliad. Roedd hyn yn galluogi y rhai a fynychodd i weld y cerbydau a'r offer yn ystod yr egwyl.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant ac yn caniatáu i ymatebwyr Categori 1 a 2 i rwydweithio gyda'r Sector Gwirfoddol a gweld sut y gallant gefnogi cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad.

## Blaenoriaethau i'r dyfodol

### Cynllun Adfer

Mae Cynllun Adfer Fforwm Lleol Cymru Gydnerth wedi'i ddrafftio a'i rannu gyda phartneriaid i dderbyn eu sylwadau, bydd yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod gweithredol nesaf Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

### Inphase (system perfformiad)

Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen bychan i adolygu Inphase. Mae Inphase yn system perfformiad a ddefnyddir i olrhain cynnydd Swyddogion Cynllunio at Argyfwng. Mae cynlluniau gwaith yn cael eu huwchlwytho, gyda'r system yn cael ei phrofi ar hyn o bryd.

### Cronfa Ddata Hyfforddiant

Mae cronfa ddata hyfforddiant yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd cronfa ddata hyfforddiant yn cynnwys holl fanylion hyfforddiant mewnol y mae staff Awdurdodau Lleol wedi'i gwblhau i gynorthwyo i nodi anghenion hyfforddiant. Mae tîm dylunio'r system yn mynychu cyfarfodydd tîm ym mis Awst i ystyried cyflwyno'r system.

### Cylch Ymarfer Kronospan

Bydd y cylch ymarfer tair blynedd ar gyfer Cynlluniau COMAH oddi ar y safle yn cael eu cyflawni cyn diwedd y flwyddyn ariannol.



## Cyngor Sir Ynys Môn

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025

Ers mis Hydref 2023, gwnaed cynnydd sylweddol ar gynlluniau wrth gefn croesi'r Fenai.  Mae Grŵp Tasg a Gorffen a ffurfiwyd ym mis Mai 2024 wedi ailysgrifennu'r ddogfen fframwaith gyda mewnbwn gan ymatebwyr categori 1 a 2, yn egluro'r rolau a'r disgwyliadau.  Aseswyd y ddogfen ym mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025.  Mae'r gwaith wedi atgyfnerthu cydlyniant amlasiantaeth, lleihau oedi o ran ymateb posibl, a gwella'r parodrwydd ar gyfer argyfwng.  Gwnaed rhagor o newidiadau i'r ddogfen fframwaith a disgwylir cytundeb grŵp cydlynu Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.  Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu cynllun pentyrru.

Mae cynllun parhad busnes Awdurdodau Lleol wedi'i ddiwygio yn dilyn ymarfer adborth y tîm rheoli.  Mae swyddogaethau allweddol yn awr yn canolbwyntio ar wasanaethau penodol (e.e. "gofal critigol ar gyfer poblogaethau diamddiffyn" yn hytrach na'r "gwasanaethau cymdeithasol").  Mae hyn yn egluro'r gwasanaethau brys hanfodol, gwella blaenoriaethu adnoddau, a gwella gwytnwch yn ystod amhariadau.  Mae gwasanaethau unigol wedi derbyn cefnogaeth i ddiweddaru eu cynlluniau penodol.  Mae templed cyfeiriadur argyfwng newydd wedi'i ddatblygu er mwyn gwneud y ddogfen yn haws ei defnyddio a'i diweddaru yn y dyfodol.

Crëwyd a rhannwyd dogfen gweithdrefnau swyddogion cofnodi.  Mae'r ddogfen yn sicrhau y cedwir cofnodion cywir a chyson yn ystod digwyddiadau, yn rhoi canllawiau clir i staff ar rolau a chyfrifoldebau ac yn atgyfnerthu trywydd archwilio ac atebolrwydd yn ystod ymateb i argyfwng.  Darparwyd hyfforddiant swyddog cofnodi i 13 aelod o staff ar draws yr holl wasanaethau ac fe drefnir cyfarfod swyddog cofnodi tuag at ddiwedd y flwyddyn.



## Cyngor Gwynedd

**Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025**

Mae templed cynllun Parhad Busnes wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi pob adran i gwblhau eu Hasesiadau o Effaith ar Fusnes a'r dogfennau ategol.

Mae holl is-grwpiau Awdurdod Lleol yn cwrdd yn rheolaidd. Mae grwpiau Dyngarol, Adfer ac Ymateb wedi cymryd rhan mewn astudiaethau achos a darparu cyflwyniadau fel rhan o gyfres o ymarferion bach.

Cafwyd effaith sylweddol ar Wynedd gan ddigwyddiadau tywydd eithafol yn ystod y gaeaf 2024, gyda Stormydd Eowyn a Darragh yn achosi amhariadau sylweddol. Hefyd, ym mis Rhagfyr, fe ddymchwelodd rhan o adeilad adfeiliedig yng Nghaernarfon. O fis Ionawr 2025 i fis Mawrth 2025, bu cynnydd mewn digwyddiadau tanau gwyllt yng Ngwynedd gyda 8 digwyddiad wedi'u cofnodi.

Mae matrics hyfforddiant mewnol Gwynedd yn parhau i gael ei gynnal, gyda chynnydd mewn presenoldeb staff mewn sesiynau hyfforddiant JESIP ar draws y gwahanol adrannau ac is-grwpiau. Mae angen rhagor o waith i nodi rheolwyr gweithredol ar gyfer hyfforddiant lefel Efydd / Gweithredol JESIP.

Mae Cylch Gorchwyl wedi'i ddrafftio mewn cydweithrediad gyda Chadeiryddion is-grwpiau ac maent yn aros i gael eu cyfieithu cyn yr adolygiad terfynol.

Mae blychau adnoddau a gwybodaeth gyswllt Canolfannau Gorffwys wedi'u diweddaru, gyda chanolfannau ychwanegol wedi'u nodi ym Mangor a Fairbourne (i gefnogi'r cynllun gwagio).

Aeth cynrychiolydd o Grŵp Isadeiledd Llywodraeth Cymru i Fairbourne i adolygu'r dull partneriaeth, gan gydnabod y dull fel model o arfer orau o ran ymgysylltiad cymunedol a gwytnwch. Gellir addasu'r fframwaith i'w ddefnyddio mewn cymunedau eraill ledled Cymru.



## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025**

Wedi mabwysiadu templed y Gwasanaeth, derbyniodd yr Uwch-reolwyr gyflwyniad ym mis Mawrth er mwyn gwreiddio'r Cynllun a'r strwythur. Bu'n gyfle hefyd i godi ymwybyddiaeth o waith y Gwasanaeth a chyfrifoldebau awdurdodau lleol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Ategwyd hynny drwy ymgysylltu ynghylch y rhaglenni hyfforddiant Aur Cymru a JESIP yn 2024.

Cyflwynwyd cyfres o ddogfennau Parhad Busnes y Gwasanaeth i Gonwy i ymgynghori arnynt.  Trefnwyd gweithdai ag uwch-reolwyr i adolygu'r Cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol a Gwasanaeth. Mae'r Polisi a'r Fframwaith wedi'i fabwysiadu ac mae'r Cynllun Corfforaethol yn y camau olaf o'r drafft gan aros am gymeradwyaeth i'r diwygiadau.

Cymeradwywyd cynnig i newid strwythur Llywodraethu ac ymateb Cynllunio at Argyfwng i alinio'n well gyda'r ffrydiau gwaith argyfyngau sifil posibl mewnol ac allanol, gan y Prif Weithredwr.  Mae'r strwythur arfaethedig yn debyg i fframweithiau'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac wedi'u cyflwyno i uwch arweinwyr a rheolwyr Conwy yn ystod chwarter cyntaf 2025.  Mae cyfres o gylch gorchwyl ar gyfer yr is-grwpiau perthnasol wedi'u drafftio i gynorthwyo i gyflwyno'r strwythur newydd dros y misoedd nesaf.  Mae'r cylch gorchwyl wedi'u rhannu gydag aelodau Grwpiau Argyfyngau Sifil Posibl Strategol a Gweithredol i'w hystyried ac i gyflwyno sylwadau arnynt.

Mae'r Gwasanaeth a Dŵr Cymru wedi cysylltu ag adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau i ddatblygu trefniadau dosbarthu dŵr i liniaru amhariad sylweddol i'r cyflenwad.  Roedd hyn wedi'i roi ar waith i atal ail ddigwyddiad fel digwyddiad Bryn Cowlyd rhag digwydd.  Briffiwyd y partneriaid, gan gynnwys Cyngor Conwy, ac roedd adnoddau wrth gefn i sicrhau na fyddai unrhyw effaith negyddol ar gymunedau Conwy.

Mae Grŵp Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy'n cwrdd fesul chwarter ac yn rhoi cyfle i aelodau, Cynghorwyr a phartneriaid i drafod cynllunio, cynnal a chadw a threfniadau ymateb brys ar gyfer yr ardal.  Cadeiriodd y Gwasanaeth Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu Cynllun Ymateb i Lifogydd Amlasiantaeth Dyffryn Conwy.

Prif faes ffocws Partneriaeth Llifogydd Cymunedol Morfa Rhuddlan oedd ymgynghori ynglŷn â'r amddiffynfeydd llifogydd arfaethedig yn ardal Bae Cinmel.

Mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Grŵp Rhaglen Ymateb i Seibrddigwyddiadau. Mae cylch gorchwyl, rhaglenni gwaith, aelodaeth CIRT, gweithdai staff a rhaglenni hyfforddiant wedi'u cytuno ac yn parhau i gael eu gweithredu.

Mae'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo cynllunwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o ran y cynllun brys amlasiantaeth ar gyfer Piblinellau â Pheryglon Damweiniau Mawr (MAHP).

Cafwyd cyflwyniad yn amlinellu trefniadau Argyfyngau Sifil Posibl a gwaith y Gwasanaeth ar gyfer Aelodau Etholedig yn y Fforwm Gwybodaeth a Datblygu Aelodau ar 14 Chwefror.



## Cyngor Sir Ddinbych

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025

Yn dilyn ymarfer Canolfan Orffwys y llynedd, mae'r holl argymhellion wedi'u hymgorffori yn Sir Ddinbych. Adolygwyd Cynllun Canolfannau Gorffwys ym mis Chwefror 2025. Cynhaliwyd sesiwn wybodaeth ar gyfer gwirfoddolwyr newydd ac mae wedi arwain at 7 o wirfoddolwyr newydd ar gyfer y Canolfannau Gorffwys. Mae cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn / sesiynau gwybodaeth wedi'u cyflwyno ar gyfer holl wirfoddolwyr y Canolfannau Gorffwys i sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu.

Mae llawlyfr Tîm Gwybodaeth Argyfwng Corfforaethol Sir Ddinbych wedi'i ddiwygio a'i ymgorffori gan y grŵp. Mae 10 swyddog cofnodi wedi'u hyfforddi ac yn weithredol yn awr. Mae dau swyddog cofnodi wedi'u dyrannu i bob is-grŵp Tîm Rheoli Argyfwng Strategol a byddant yn mynychu'r cyfarfodydd chwarterol i ymarfer a datblygu perthnasoedd gyda staff.

Mae Cadeirydd newydd y Tîm Gweithrediadau wedi'i hyfforddi ac wedi cymryd yr awenau fel Cadeirydd. Yn dilyn trafodaethau o fewn cyfarfodydd y Tîm Gweithrediadau, mae Llawlyfr y Tîm Gweithrediadau wedi'i adolygu a'i ddiweddaru.

Mae'r holl wasanaethau wedi cwblhau eu Cynllun Parhad Gwasanaeth newydd, ac mae cynllun adfer trychineb TG wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2025.

Mae'r tîm Adfer o fewn Sir Ddinbych wedi'i sefydlu ac mae Dirprwy yn eu lle.



## Cyngor Sir y Fflint

**Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025**

Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng a'i is-grwpiau i gynnal trosolwg strategol, sicrhau cydlyniant ar draws yr Awdurdod Lleol, ac adolygu gweithgareddau parodrwydd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn darparu platfform i drafod risgiau sy'n dod i'r amlwg, rhannu arferion gorau, a datblygu mentrau gwytnwch parhaus.

Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd, roedd y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng hefyd yn cael eu gweithredu mewn ymateb i ddigwyddiadau fel bo'r angen. Roedd eu gweithredu yn hwyluso ymateb cydlynol.

Derbyniodd y Tîm Parhad Busnes drosolwg cynhwysfawr gan Reolwyr TG Cyngor Sir Ynys Môn, o ddigwyddiad seibr a ddigwyddodd ac a oedd wedi effeithio ar Ynys Môn, gan gynnwys yr effaith a'r mesurau ymateb. Cafwyd adolygiad cynhwysfawr o Gynlluniau Parhad Busnes a Chynllun Gwytnwch Seibr.

Roedd y Tîm Parhad Busnes hefyd yn paratoi a chynllunio ar gyfer symud Cyngor Sir y Fflint yn swyddogol i swyddfeydd Tŷ Dewi Sant yn Ewlo.

Mae dwy Ganolfan Orffwys newydd wedi'u nodi yn yr Wyddgrug, gan fynd i'r afael â diamddiffynedd allweddol, gan fod risg llifogydd yn hysbys yn un o'r canolfannau dynodedig blaenorol yng Nghanolfan Hamdden yr Wyddgrug. Mae gwiriadau o ran eu haddasrwydd yn parhau. Mae Swyddog Prosiect y Dwyrain wrthi'n gwirio ac ail-lenwi Blychau'r Canolfannau Gorffwys yn Sir y Fflint. Mae gwaith papur wedi'i gasglu a'i drefnu. Mae atodiadau Canolfannau Gorffwys wedi'u cwblhau ac mae cyfarfodydd ymgyfarwyddo wedi'u cynnal gyda'r Canolfannau Gorffwys penodol.

Ym mis Ebrill 2024, bu tân a sawl ffrwydrad yn Synthite, yn yr Wyddgrug, un o'r 4 safle COMAH haen uwch yng Ngogledd Cymru. Ar ddechrau'r tân, nid oedd yn eglur a oedd cemegau a oedd yn cael eu storio, yn bennaf fformaldehyd, mewn perygl gan fod y tân mewn adeilad ger yr ardal storio. Gofynnodd Heddlu Gogledd Cymru am gefnogaeth gan y Gwasanaethau Stryd, i gynorthwyo gyda chau ffyrdd, a gofyn am gael agor Canolfan Orffwys, a gafodd ei chau wedi hynny. Dangosodd profion Cyfoeth Naturiol Cymru bod fformaldehyd wedi'i ryddhau i'r cwrs dŵr. Uwchgyfeiriodd TCG hyn i'r SCG. Gostyngodd y lefelau yn y cwrs dŵr ac fe gamodd SCG i lawr. Mae ymchwiliad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r digwyddiad yn parhau.

Darparwyd sawl sesiwn ymgyfarwyddo Resilience Direct yn ystod 2024 gan Swyddog Cynllunio at Argyfwng Prosiectau Statudol. Cafwyd presenoldeb da yn y sesiynau a chroesawyd y sesiynau gan y cyfranogwyr.

Sefydlwyd Polisi Uwchgyfeirio Rhybuddion Tywydd o fewn y Tîm Gweithrediadau, mae'n cael ei ddefnyddio mewn cyfnodau o dywydd eithafol er mwyn i'r tîm benderfynu pryd y dylid uwchgyfeirio'r mater i'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng.

Mae'r Cynllun Marwolaethau Niferus wedi'i ymgorffori'n llwyddiannus yn Llawlyfr y Tîm Gweithrediadau. Mae hyn yn eitem sefydlog ar y rhaglen yn awr i sicrhau ymwybyddiaeth a pharodrwydd parhaus.

Mae'r Cynllun Cludiant a Llawlyfr y Tîm Gweithrediadau wedi'u hadolygu a bydd yn cael ei rannu yn ystod cyfarfod tîm nesaf yr is-grŵp Gweithrediadau.

Darparwyd cefnogaeth a chymorth i'r Grŵp Llifogydd Cymunedol, wrth lunio Cynllun Llifogydd Cymunedol Sandycroft a Brychdyn a Bretton.

Mae cofrestr o swyddogion cofnodi ar gyfer CSyFf wedi'i chadarnhau, yn dilyn ymgyrch recriwtio. Mae hyfforddiant swyddogion cofnodi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei ddarparu yn 2025.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025**

Bu i'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng a'i is-grwpiau gymryd rhan mewn ymarfer a oedd yn canolbwyntio ar ddigwyddiad efelychiadol o drên yn dod oddi ar y cledrau. Roedd yr hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar sefyllfa, yn gwella cydlyniad rhyng-adrannol, profi protocolau ymateb, ac atgyfnerthu'r parodrwydd ar gyfer argyfyngau tebyg.

Darparwyd cyflwyniad penodol i'r Adran Dai yn amlinellu rôl a gallu y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng. Fel rhan o'r ymgysylltiad, defnyddiwyd sefyllfa'n cynnwys ffrwydrad mewn tŷ teras i brofi cydlyniant amlasiantaethol, cynllunio ymateb a'r effaith bosibl ar gymunedau preswyl. Roedd y sesiwn yn nodi pwysigrwydd parodrwydd a chydweithio ar draws yr adrannau o fewn yr Awdurdod Lleol.

Darparwyd cyflwyniad i'r Tîm Adfer ynglŷn ag adfer o fewn yr Awdurdod Lleol a rôl y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng.

Fel rhan o ymdrechion parhaus i liniaru risg, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cynllun Tomennydd Glo ar gyfer tri safle o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd y gwaith yn dilyn ymgynghoriad gyda phartneriaid perthnasol gan gynnwys y gwasanaethau brys, ac asiantaethau amgylcheddol. Roedd y broses gynllunio'n cynnwys nodi parthau effaith posibl, a sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir o fewn y cynllun ar gyfer ymateb i ddigwyddiad. Mae'r cynlluniau hyn yn gwella parodrwydd Awdurdodau Lleol yn sylweddol ac yn sicrhau ymateb amlasiantaeth cydlynol i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag isadeiledd glo.

Mae Cynlluniau Parhad Gwasanaeth wedi'u hadolygu ac yn defnyddio'r templed diwygiedig yn awr. Cynhaliwyd ymarferion Parhad Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ar gyfer Cyllid a TGCh, gydag ymarfer ar wahân ar gyfer adrannau TGCh, Tai, yr Economi a Chynllunio o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd yr ymarferion hyn yn profi Cynlluniau Parhad Gwasanaeth adrannol ac yn darparu cyfle i'r timau werthuso effeithiolrwydd a gwytnwch eu cynlluniau.

Cynhaliwyd ymweliadau Canolfan Orffwys gan Swyddog Cynllunio at Argyfwng Wrecsam a Swyddog Prosiect y Dwyrain, i werthuso eu haddasrwydd a sicrhau cywirdeb a pherthnasedd yr atodiadau cysylltiol ar gyfer pob safle.

Cyflwynwyd trosolwg o ymateb Aur (Strategol) yn unol â chais gan y Prif Swyddogion.

Diweddarwyd y Cyfeiriadur Cysylltiadau mewn Argyfwng bob 3 mis gan Swyddog Prosiect y Dwyrain, roedd hyn yn golygu bod y Swyddog Prosiect yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Adrannau o fewn CBSW, a diweddaru'r cyfeiriadur fel y bo'n briodol. Yna roedd hyn yn cael ei uwchlwytho i RD.

Cynhaliwyd Sesiwn Drosolwg Resilience Direct ar gyfer staff CBSW gan Swyddog Cynllunio at Argyfwng Prosiectau Statudol. Croesawodd y staff hyn, a rhoi trosolwg llawn o ddefnydd y safle.



## Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH), Piblinellau a Gwaith Niwclear

Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025

Cynlluniau ac Ymarferion Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr:

Penodol i safle:

- **Synthite** - wedi cwblhau darpariaeth modiwlau Ymarfer WAVE gyda'r gweithredwr a phartneriaid Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd (NWLRF) i sicrhau cydymffurfiaeth COMAH 2015. Sicrhau bod cyswllt parhaus gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel awdurdod cymwys COMAH, i adolygu cydymffurfiaeth a mesurau ymyrraeth sy'n cael eu cyflawni gyda'r safle fel rhan o'r gwaith wedi damwain.
- **Great Bear Distribution** - wedi gweithio gyda'r gweithredwr a phartneriaid i weithredu argymhellion ôl-drafodaeth Ymarfer STAR, gan gynnwys gwelliannau i alluoedd rhybuddio a hysbysu'r cwmni a gwelliannau i'r dyfodol i Gynllun Argyfwng Allanol CSyFf.
- **FMC Agro** - gweithio gyda'r gweithredwr a phartneriaid i ddatblygu ystod o argymhellion ôl-drafodaeth Ymarfer WYVERN, gan gynnwys gwelliannau i dempled Cynllun Argyfwng Allanol CSyFf.
- **Kronospan** - darparu cefnogaeth a chyngor i dîm iechyd a diogelwch safle Kronospan o ran busnes lleol yn cyfyngu mynediad i un o'u prif allanfeydd argyfwng gyda'r posibilrwydd eu bod yn cyfaddawdu unrhyw ymateb gofynnol i ddamwain fawr COMAH ar y safle gan WAST a NWFRS.

Cyffredinol:

- Cyfranogi yng ngweithgor Grŵp Ymarfer Da COMAH Cenedlaethol.
- Mynychu cyfarfodydd cydymffurfiaeth reoleiddiol COMAH gydag Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chyfoeth Naturiol Cymru yn eu capasiti rheoleiddio.

Cynlluniau ac Ymarferion Rheoliadau Diogelwch Piblinellau:

Penodol i weithredwr:

- Uniper - cwblhau dau fodiwl Ymarfer VENT gyda'r gweithredwr a phartneriaid NWLRF i sicrhau cydymffurfiaeth PSR 1996.



Cyffredinol:

- Ailgyflwyno'r naw cynllun piblinellau â pheryglon damweiniau mawr ar gyfer chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, gan sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol gyda PSR 1996 - mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys 4 gweithredwr rhwydwaith piblinellau pwysedd uchel (Uniper / ENI / National Gas / Wales & West Utilities).

## Gwaith Rhanbarthol y Gwasanaeth

Adolygwyd darpariaeth y Canolfannau Gorffwys ac fe gytunwyd ar weithdrefnau gweithredu'r 6 Awdurdod Lleol a'u hychwanegu fel dogfen ategol i'r Cynllun Rhanbarthol.

Mae sawl aelod o staff y Gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar greu haenau ar gyfer MapData Cymru, sy'n system fapio gan Lywodraeth Cymru. Mae map wedi'i greu gyda 6 haen wahanol ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, yn dangos pob Canolfan Orffwys a gwybodaeth allweddol Canolfannau Gorffwys.

Mae'r Gwasanaeth wedi cydweithio gydag Ymgynghorydd Diogelwch Gwrthderfysgaeth Heddlu Gogledd Cymru ac arweinwyr addysg Awdurdodau Lleol i ddatblygu a darparu gweithdai digwyddiadau mawr i arweinwyr addysg yn Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Cynhaliwyd sawl sesiwn ar draws y chwe Awdurdod Lleol.

Defnyddiwyd gweithdrefnau argyfwng y chwe Awdurdod Lleol yn ystod Storm Darragh ym mis Rhagfyr 2024 a Storm Eowyn ym mis Ionawr 2025. Cafwyd rhybuddion tywydd coch ar draws mwyafrif y 6 Awdurdod Lleol yn sgil Storm Darragh. Sefydlwyd ystafell reoli amlasiantaeth arian ym mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru, roedd staff y Gwasanaeth yno fel cyswllt rhwng yr awdurdodau lleol a phartneriaid amlasiantaeth. Roedd hyn yn gymorth gyda digwyddiadau cau ffyrdd a thai yr effeithiwyd arnynt oherwydd eu bod wedi colli pŵer. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn arfer da o safbwynt Awdurdod Lleol.

Mae'r holl Awdurdodau Lleol wedi llofnodi Siarter ar gyfer Teuluoedd mewn Galar, ac mae ffrydiau gwaith ar y gweill i ymgorffori'r egwyddorion ar draws y sefydliadau.

Mae'r Gwasanaeth yn mynychu PSPG a SAG pob Awdurdod Lleol. Maes ffocws penodol yw effaith cyflwyno Cyfraith Martyn ar Awdurdodau Lleol.



## Ffrydiau gwaith NWLRF

Mae'r Gwasanaeth yn awr yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol yn y Grŵp Rheoli Gwersi, a sefydlwyd i reoli ymgorffori a gweithredu argymhellion o ôl-drafodaethau, ymchwiliadau a dysgu a Datblygu. Bydd y rhain yn argymhellion rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae Swyddog Cynllunio at Argyfwng Prosiectau Statudol yn cynorthwyo gydag adolygiad a diwygiad cerdyn gweithredu awdurdod lleol yng nghynllun ymateb Cemegol, Biolegol, Ymbelydrol a Niwclear.

Mae presenoldeb hefyd yn y grŵp Tanau Gwyllt, ac mae'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo i gwblhau cerdyn gweithredu gyda swyddogion Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, i gefnogi datblygiad parhaus cynllun Tanau Gwyllt NWLRF. Mae gweithdrefn galwadau hefyd wedi'i datblygu gydag ystafell reoli NWFRS, i sicrhau bod swyddogion dyletswydd y Gwasanaeth yn derbyn hysbysiad o ddifrifoldeb tanau gwyllt wrth iddynt ddigwydd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan mewn Gweithgor Risg Technoleg Batris sy'n canolbwyntio ar effaith gymdeithasol a goblygiadau ymateb rhanbarthol i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thechnoleg batris lithiwm-ïon.

Daeth cam gweithredu gan Grŵp Tasg a Gorffen Ymateb Morwrol i greu cerdyn gweithredu Awdurdod Lleol ar gyfer Cynllun Ymateb i Argyfwng Morwrol NWLRF. Mae hyn wedi'i gwblhau gan y Gwasanaeth yn awr.

O fewn y Grŵp Tasg a Gorffen Dosbarthu Dŵr Argyfwng, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi safleoedd addas sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol yng Nghonwy a Gwynedd, mewn cydweithrediad ag arweinwyr Priffyrdd a Strydlun Awdurdodau Lleol, i'w defnyddio i ddosbarthu dŵr mewn argyfwng yn ystod cyfnod segur torfol. Yn ogystal, mae cynllun argyfwng dosbarthu dŵr Dŵr Cymru yn cael ei adolygu yn dilyn digwyddiad Bryn Cowlyd.

Mae'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i gynllunio ymarfer digwyddiad twnnel amlasiantaeth (Ymarfer Viper) a gynhaliwyd ddydd Sul 1 Rhagfyr. Hwyluswyd ymarfer pellach gan Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd gyda phresenoldeb gan staff y Gwasanaeth a Chonwy. Roedd yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr gymryd rhan mewn grŵp cydlynu tactegol ac uned y cyfryngau mewn ymateb i wrthdrawiad traffig ffyrdd gyda sawl cerbyd yn nhwnnel Conwy.

### Dysgu a Datblygu

- Y Gwasanaeth wedi mynychu Gweithdy Torri Amodau Seibr.
- Y Gwasanaeth wedi mynychu Ymarfer Packsaddle - ymarfer Cronfa Ddŵr LRF yn Wrecsam.
- Cynhelir sesiynau hyfforddiant adfer yn Wrecsam i gefnogi datblygiad is-grwpiau a'u dirprwyon.
- Presenoldeb y Gwasanaeth mewn Ymarfer Afon Dyfrdwy gyda Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer.
- Hyfforddiant ar gyfer aelodaeth EMRT yn dilyn adolygiad.
- Bu i'r Gwasanaeth gymryd rhan mewn Hyfforddiant Swyddog Cofnodi LRF er mwyn eu galluogi i gyflwyno'r hyfforddiant yn fewnol i'r Awdurdodau Lleol. Ers hynny, mae'r hyfforddiant wedi'i addasu i ddiwallu anghenion Awdurdodau Lleol drwy Grŵp Tasg a Gorffen. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu drwy gydol 2025 i'r 6 Awdurdod Lleol.



## Ffrydiau gwaith NWLRF

- Yn ogystal â rhaglen Hyfforddiant Aur Cymru, mae staff Awdurdodau Lleol wedi mynychu rhaglen hyfforddiant Arian, Gweithredol a swyddogion cofnodi JESIP. Mae hwyluswyr y Gwasanaeth yn rhan o dîm cynllunio JESIP ac yn cyfrannu at ddatblygu cyflwyniadau ac ymarferion sy'n adlewyrchu anghenion hyfforddiant cyfranogwyr Awdurdod Lleol ynghyd â'r gwasanaethau golau glas a phartneriaid eraill.
- Mae gan staff Awdurdod Lleol fynediad at becynnau e-ddysgu argyfwng sifil posibl a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth. Y rhestr gyflawn o'r cyrsiau cynllunio at argyfwng sydd ar gael yw:
  - Beth yw Canolfan Orffwys?
  - Staff a Gwirfoddolwyr Canolfan Orffwys
  - Rheolwr y Ganolfan Orffwys
  - Cydlynydd Ymateb Dyngarol
  - Swyddog Gweithrediadau
  - Deddfwriaeth Cynllunio at Argyfwng Statudol
  - Swyddog Tactegol
  - Risgiau perthnasol i awdurdodau lleol
  - Ôl-drafodaeth
  - Gwaith partneriaeth awdurdod lleol wrth gynllunio at argyfwng
  - Adeileddau
  - Swyddog Strategol
  - Adfer
  - Cadw cofnodion
- Mae'r Gwasanaeth yn hwyluso Ymarfer Cooper bob chwarter drwy'r flwyddyn. Ymarfer yw hwn sy'n profi ein Cyfeiriadur Cysylltiadau Mewn Argyfwng, ac yn ein helpu i sicrhau bod y rhifau wedi'u diweddaru. Cynhelir yr ymarfer yn ystod oriau swyddfa, a thu hwnt i oriau swyddfa hefyd.



## Gwaith y Gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026.

### Gwaith Rhanbarthol

- Bydd Sesiynau Gwrthderfysgaeth Ategol yn cael eu cynnal yn ystod 2025-2026 ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol.
- Cyflwyno a gweithredu cynllun adfer NWRF a gweithgareddau ymgorffori cysylltiol.

### Cyngor Sir Ynys Môn

- Mae ymarfer canolfan orffwys caethwasiaeth fodern yn cael ei threfnu ar gyfer mis Medi 2025 a bydd yn cael ei chynnal yng nghanolfan hamdden Plas Arthur. Mae ymarferion canolfan orffwys yn allweddol ar gyfer Awdurdodau Lleol gan eu bod yn sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfyngau. Bydd ymarfer caethwasiaeth fodern yn profi gofynion penodol digwyddiad o'r fath ond gallai hynny fod wedi'i gyfyngu i Ynys Môn oherwydd y porthladd. Mae'r ymarferion hyn yn galluogi staff a gwirfoddolwyr i ymarfer eu rolau, profi offer a threfniadau a gwella cydlyniant y gwasanaethau brys a sefydliadau partner. Maent yn gymorth i nodi bylchau mewn cynlluniau presennol, sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol ac yn ymateb i anghenion pawb gan gynnwys unigolion diamddiffyn. Trwy gynnal yr ymarferion hyn, mae Awdurdodau Lleol yn datblygu hyder y cyhoedd ac yn diwallu cyfrifoldebau cyfreithiol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.
- Cynhelir ymarfer parhad busnes TG ym mis Mai 2025. Bydd hyn yn profi gallu'r gwasanaethau i ymateb i golled TG a systemau i sicrhau bod cynlluniau a phrosesau'n ddigonol.
- Diwygiadau pellach i fframwaith cau'r pontydd, bydd y gwasanaeth hefyd yn cefnogi gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran trefniadau pentyrru.
- Mae gwirfoddolwyr Corfforaethol a rota Aur yn cael eu hystyried yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o Storm Darragh ac Eowyn.
- Profwyd dogfen Cynllun Wrth Gefn Croesi'r Fenai ym mis Mawrth 2025, gyda diwygiadau pellach wedi'u nodi ym mis Ebrill 2025. Mae hyn yn disgwyl am gymeradwyaeth grŵp cydlynu LRF.
- Trefnwyd sesiwn friffio'r Ganolfan Orffwys ar gyfer mis Ebrill 2025. Mae'n amlinellu strwythur a chyfrifoldebau cynllunio at argyfwng lleol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, diben a mathau o Ganolfannau Gorffwys brys, rolau o fewn y canolfannau hyn, ac ystyriaethau ymarferol fel arlwyo, cyfathrebu a rheoli anghenion amrywiol mewn argyfwng. Bwriad y cyflwyniad yw paratoi staff i gefnogi'r gymuned mewn sefyllfaoedd gwagio brys.

### Cyngor Gwynedd

- Mae Cylch Gorchwyl wedi'i ddrafftio mewn cydweithrediad gyda Chadeiryddion is-grwpiau ac maent yn aros i gael eu cyfieithu cyn yr adolygiad terfynol.
- Mae blychau adnoddau a gwybodaeth gyswllt Canolfannau Gorffwys yn cael eu diweddaru, gyda chanolfannau ychwanegol wedi'u nodi ym Mangor a Fairbourne (i gefnogi'r cynllun gwagio).
- Mae Ymarfer Gweithredol Amlasiantaeth ac ymarfer Cyfathrebu ar wahân ar gyfer cynllun gwagio Fairbourne yn cael eu trefnu ar gyfer mis Medi a Hydref.
- Trefnir cynrychiolaeth ar gyfer Ymarfer Pegasus.
- Mae Trefniadau Argyfwng Mawr yn cael eu diweddaru ym mis Mehefin / Gorffennaf.
- Mae cynllun Bygythiad a diogelwch yn cael ei ddatblygu ym mis Gorffennaf / Awst.
- Mae ymarfer Parhad Busnes yn cael ei baratoi ar gyfer y Panel Strategol.
- Mae'r Grŵp Adfer wedi mynegi diddordeb mewn cynnal ymarfer bach yn seiliedig ar gynllun adfer LRF.
- Mae llawlyfr gweithredol yn cael ei ddatblygu ym mis Mehefin / Gorffennaf.
- Bydd Cyfeiriadur Cysylltiadau mewn Argyfwng yn cael ei ddiweddaru ym mis Mehefin.

## Gwaith y Gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026.

### Cyngor Gwynedd

- Rydym yn bwriadu cynnal ymarfer prawf a dechrau ymgorffori cynlluniau mewn ymarfer gweithredol erbyn dechrau'r haf.
- Mae cynllun gwagio Fairbourne yn aros am gymeradwyaeth derfynol. Mae ymarfer pen desg wedi'i drafftio ac yn cael ei hadolygu, gyda'r nod o gyflwyno'r ymarfer ddechrau'r haf. Mae gwaith ar y gweill i fodelu patrymautywydd ac asesu effaith bosibl er mwyn atgyfnerthu'r strategaeth ymateb. Mae lleoliadau Canolfannau Gorffwys ychwanegol wedi'u cymeradwyo ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan yn yr hyfforddiant perthnasol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Sefydlu a chefnogi strwythur EMRT. Cytuno ar gylch gorchwyl ac aelodaeth is-grwpiau. Cyflwyno cardiau gweithredu ymateb ar gyfer is-grwpiau EMRT.
- Adolygu ffrydiau gwaith Cyngor Conwy a risgiau yng Nghonwy.
- Adolygu Cynlluniau Ymateb Conwy a blaenoriaethu unrhyw gamau adferol yn briodol.
- Alinio trefniadau Parhad Busnes gyda'r Fframwaith. Cefnogi gweithrediad a datblygiad a phrofi cynlluniau gwasanaeth unigol.
- Parhau i gynorthwyo i ddatblygu gwytnwch seibr a chynnal momentwm rhaglen ymateb gwytnwch seibr.
- Nodi swyddogion cofnodi, datblygu pecyn hyfforddiant a chadarnhau trefniadau hyfforddi.
- Bydd cyflwyniad yn cael ei ddarparu i Gynghorwyr Tref a Chymuned ym mis Ebrill 2025, gyda chyfle i ganolbwyntio ar effaith yr amhariad dŵr sylweddol a brofwyd ym mis Ionawr.



### Cyngor Sir Ddinbych

- Cyflwyno templed Cynllun Argyfwng Ysgolion.
- Cynnal Sesiwn Hyfforddi Swyddogion Cofnodi, gan sicrhau bod yr holl Swyddogion Cofnodi o fewn CSDd wedi'u hyfforddi.
- Sesiwn Ymarfer Aur anffurfiol.
- Sesiynau Parhad Busnes Meicro ar gyfer pob gwasanaeth.
- Mae'r holl wasanaethau wedi cwblhau eu dadansoddiad effaith busnes i hysbysu'r cynllun corfforaethol.
- Ymarfer pen desg y Tîm Gweithrediadau
- Llyfryn canllaw newydd i Aelodau Etholedig

## Gwaith y Gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026.

### Cyngor Sir y Fflint

- Presenoldeb parhaus mewn SAG
- Cynnal Gweithdai Parhad Busnes yn 2025, i gefnogi portffolios yr Awdurdod Lleol i brofi cynlluniau Parhad Busnes.
- Cyfarfodydd parhaus a rhannu gwybodaeth o ran fflatiau uchel iawn y Fflint.
- Cynllunio 'Digwyddiad Aelodau Rheoli Argyfwng' i hysbysu'r aelodau o'u rôl yn ystod argyfwng, a'u hysbysu o ran ymateb a strwythur y Cyngor.
- Darparu hyfforddiant Rheolwr Canolfan Orffwys ar ddiwedd 2025. Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

- Bydd ymarfer Adfer yn cael ei gynnal, yn dilyn cyflwyno cynllun LRF.
  - Ymarferion Parhad Gwasanaeth Terfynol ar gyfer:
  - Gwasanaethau'r Prif Weithredwr
  - Yr Amgylchedd a Thechnegol
  - Llywodraethu a Gwasanaethau i Gwsmeriaid
  - Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sefydlu cyfarfodydd swyddogion cofnodi yn dilyn yr hyfforddiant.
- Cynnal Sesiwn Drosolwg ddilynol Resilience Direct  ym mis Mehefin 2025.
- Adolygu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r gweithdy Seibr.
- Ymarferion adfer ar gyfer adrannau'n dilyn yr ymarferion Parhad Gwasanaeth.
- Adolygu risgiau yn Wrecsam a chynlluniau i ystyried creu canllawiau ar gyfer pob un.
- Cyflwyno cardiau gweithredu ar gyfer is-grwpiau EMRT.



## GWAITH AR REOLI PERYGLON DAMWEINIAU MAWR, PIBLINELLAU A SAFLEOEDD NIWCLEAR

### Cynlluniau ac Ymarferion Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr:

Penodol i safle:

Synthite:

- adolygu ac ail gyflwyno Cynllun Argyfwng Allanol CSyFf ar gyfer y safle
- cyswllt parhaus gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel awdurdod cymwys COMAH, i adolygu cydymffurfiaeth a mesurau ymyrraeth sy'n cael eu cyflawni gyda'r safle a chanlyniadau archwiliad i ddamwain.
- **Great Bear Distribution** - adolygu ac ail gyflwyno Cynllun Argyfwng Allanol CSyFf ar gyfer y safleoedd hyn.
- **Kronospan** - datblygu a darparu 4 modiwl ymarfer argyfwng gyda'r gweithredwr a phartneriaid NWLRF i sicrhau cydymffurfiaeth COMAH 2015.

Cyffredinol:

- Trawsnewid system adennill COMAH, ac adennill costau gyda'r 4 gweithredwr COMAH.
- Cyfranogi yng ngweithgor Grŵp Ymarfer Da COMAH Cenedlaethol.
- Mynychu cyfarfodydd cydymffurfiaeth reoleiddiol COMAH gydag Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chyfoeth Naturiol Cymru yn eu capasiti rheoleiddio.

### Cynlluniau ac Ymarferion yng nghyswllt Rheoliadau Diogelwch Piblinellau

Penodol i weithredwr:

- **Uniper** - trafod gyda'r gweithredwr o ran trefnu darpariaeth modiwlau Ymarfer VENT sy'n weddill yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27.
- **Wales & West Utilities** - adolygu, diwygio ac ail gyflwyno cynlluniau MAHP ar gyfer y gweithredwr hwn.
- **ENI** - trafod gyda'r gweithredwr o ran datgomisiynu'r cynllun MAHP ar gyfer eu rhwydwaith piblinellau nwy pwysedd uchel.
- **National Gas** - adolygu, diwygio ac ail gyflwyno cynllun MAHP ar gyfer y gweithredwr gan gynnwys yr estyniad piblinellau arfaethedig i'w rhwydwaith pwysedd uchel ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.
- **Shotton Mill / Eren** - cyswllt gyda'r gweithredwr o ran yr angen posibl i ddatblygu cynllun MAHP ar gyfer eu hisadeiledd piblinellau ar y safle, sy'n debygol o fod yn destun rheoliadau diogelwch piblinellau.

Cyffredinol:

- Darparu cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth cynllunio at argyfwng MAHP / PSR ar-lein ar gyfer awdurdodau lleol, gyda chefnogaeth UKOPA

### Cynlluniau ac Ymarferion ar gyfer Safleoedd Niwclear/y Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol:

- Presenoldeb mewn gweithgorau cynllunio at argyfwng ac ymateb niwclear cenedlaethol LANWG a NULEAF, ar ran y 6 awdurdod lleol.
- Presenoldeb mewn grwpiau budd-ddeiliaid safle datgomisiynu niwclear Ynys Môn a Gwynedd, ar gyfer cyn orsafoedd niwclear Wylfa a Thrawsfynydd.
- Datblygiad parhaus dogfen ganllaw fframwaith ymateb niwclear ar gyfer y chwe awdurdod lleol, i sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau REPPIR 2019.









GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL

CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES COUNCILS

REGIONAL EMERGENCY PLANNING SERVICE

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWYNEDD

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL